

CYFARFOD: Y CYNGOR LLAWN

DYDDIAD: 3 GORFFENNAF 2025

TEITL: PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU – GWEITHREDU  
CYNLLUN BUSNES ‘ADDAS I’R DYFODOL’

SWYDDOG CYSWLLT: DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID

AELOD: CYNGHORYDD ELIN HYWEL, CADEIRYDD  
PWYLLGOR PENSIYNAU

---

Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i’r Cyngor:

1. Nodi Achos busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru Addas i’r Dyfodol (Atodiad 3, Atodiad 4 ac adran 4)
  2. Cymeradwyo ffurfio endid corfforaethol sy’n berchnogaeth llwyr i Awdurdodau Gweinyddu PPC a fydd yn cael ei adnabod yn Gwmni Rheoli Buddsoddi PPC (IMCo.) a’r holl gamau eraill sy’n angenrheidiol i gyflwyno cais i’r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ar gyfer awdurdodi’r cwmni gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddewis a recriwtio Swyddogaethau Uwch Reolwyr (SMF) fel sy’n ofynnol gan yr FCA a pharatoi a chyflwyno’r cais i’r FCA. (Adran 5)
  3. Cymeradwyo Cynllun Busnes a chyllideb ddiwygiedig PPC 2025/28 sy’n cynnwys costau dylunio/galluogi ar gyfer Prosiect yr Wyddfa (Atodiad 5 ac Adran 6)
  4. Dirprwyo’r hawl i’r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau i fwrw ymlaen gyda Prosiect Wyddfa gydag Awdurdodau Gweinyddu PPC yn unol ag amserlen y Llywodraeth o fewn y gyllideb gymeradwy.
  5. Dirprwyo cymeradwyaeth derfynol y dogfennaeth ffurfiol derfynol sy’n ofynnol ar gyfer gweithredu’r Cwmni Rheoli Buddsoddi, a ddisgrifir fel ‘Mynd yn Fyw’ fel yr amlinellir yn Adran 7, i’r Pwyllgor Pensiynau i roi effaith i Achos Busnes PPC Addas i’r Dyfodol.
- 

## 1 Cefndir

- 1.1 Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig sy’n gweithredu er budd ei weithlu aelodau sy’n gweithio i awdurdodau lleol ac ystod o gyrff cyflogaeth ar yr atodlen a cyrff a ganiateir yn Lloegr a Chymru. Mae’r cynllun yn cael ei redeg ar wahân gan 87 Awdurdod Gweinyddu (AG), yn unol â deddfwriaeth a osodwyd gan Lywodraeth San Steffan.

- 1.2 Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd werth £3.2 biliwn o asedau a rhagwelir y bydd yn cael ei ariannu dros 150% yn y prisiad teirblyneddol yn 2025. Mae dros 53,000 o aelodau yn rhan o'r Gronfa ac mae 46 o gyflogwyr yn y cynllun. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn ei Hadroddiad Blyneddol yma:

[Adroddiad Blyneddol 2024 Cymraeg](#)

- 1.3 Yn 2015, amlinellodd y Canghellor (ar y pryd) ei ddisgwyliadau bod yr 87 awdurdod gweinyddu yn ffurfio nifer llai o Bŵl Asedau (ar gyfer dibenion rheoli buddsoddi yn unig) ar sail wirfoddol, gyda'r bwriad o wella arbedion effeithlonrwydd, dileu arbedion oherwydd maint, gwella deilliannau buddsoddi ac annog buddsoddi mewn isadeiledd y DU a rhoi asedau mewn nifer llai o gronfeydd asedau mwy.

- 1.4 Roedd yr 8 pŵl a ffurfiwyd o ganlyniad i hynny yn dod o ardaloedd sy'n ddaearyddol agos (gydag ychydig o eithriadau):

- London CIV - 33 cronfa Bwrdeistref Llundain
- Central - 8 cronfa yng Nghanolbarth Lloegr
- Access - 11 cronfa yn yr 'Home Counties' yn Lloegr
- Brunel - 10 cronfa yn ne-orllewin Lloegr
- Northern - 3 cronfa fawr yng ngogledd Lloegr
- Border to Coast (B2C) - 11 cronfa yng ngogledd-ddwyrain Lloegr a de-orllewin Lloegr
- Local Pensions Partnership (LPP) - LPFA, Swydd Gaerhirfryn a Berkshire
- Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC), yn cynnwys yr wyth cronfa hyn yng Nghymru:
  - Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
  - Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe
  - Cronfa Bensiwn Clwyd
  - Cronfa Bensiwn Dyfed
  - Cronfa Bensiwn Gwynedd
  - Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf
  - Cronfa Bensiwn Powys
  - Cronfa Bensiwn Gwent (Torfaen)

Sefydlwyd yr wyth pŵl uchod mewn gwahanol ffyrdd gan fabwysiadu gwahanol ddulliau gweithredu, lle'r oedd ambell bŵl yn adeiladu ei gwmni rheoli buddsoddiadau a reoleiddir gan yr FCA eu hunain, dewisodd eraill, megis PPC, i logi'r isadeiledd oedd yn angenrheidiol i gronni asedau eu cronfeydd partner. Penderfynodd PPC, ar ôl gwerthuso eu holl opsiynau, mai'r dewis gorau oedd ymgysylltu â phartneriaid strategol allweddol i gyflawni'r isadeiledd cronni a fframwaith rheoleiddiol/cydymffurfiaeth gyda chefnogaeth Partner Cynghori Buddsoddi. Ni ffurfiodd Gwmni Rheoli Buddsoddi wedi ei reoleiddio gan yr FCA.

- 1.5 Mae PPC yn gydweithrediad daearyddol o wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yng Nghymru.

- 1.6 Nid oedd cydweithrediad ar draws wyth cronfa pensiwn CPLIL yn

newydd yng Nghymru, gyda hanes hir, llwyddiannus o gyd-weithio. Roedd hynny ar ôl nodi yn ei adroddiad "Welsh LGPS - Working Together" yn 2013, bod dull ar y cyd yn gallu cyflawni'r arbedion o ran maint, effeithlonrwydd gweithredol a gwell deilliannau buddsoddi y mae cronfeydd sylfaenol yn dymuno eu cael, ac yn gatalydd i adnabod buddsoddiadau lleol a sefydlu buddsoddi cyfrifol a pholisïau eraill.

- 1.7 Roedd yr achos busnes strategol ar gyfer yr wyth CPLIL yng Nghymru i ffurfio pŵl buddsoddi wedi'i seilio ar sylfeini cadarn y berthynas waith agos oedd eisoes yn bodoli. Hefyd, yn bwysig iawn, roedd hyn yn cynnig cyfle i sefydlu pŵl buddsoddi i Gymru, gan adlewyrchu'r nodweddion cenedlaethol a diwylliannol unigryw o genedl ddatganoledig, a'r cyfle i wneud gwahaniaeth ar gyfer y rhanddeiliaid CPLIL yng Nghymru. O safbwynt ymarferol, roedd y cynnig pendant yn mynd i'r afael â'r rhwymedigaethau rheoleiddio ynghylch Deddf yr Iaith Gymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r drefn archwilio ar wahân sydd yng Nghymru.
- 1.8 Roedd sefydlu a strwythuro Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ffurfiol yn 2017 yn cydymffurfio'n llawn â meini prawf y Llywodraeth ar y pryd, ac yn bodloni gofynion strategol wyth cronfa pensiwn y CPLIL yng Nghymru. Gwelir hyn yn y fframwaith cynrychioladol, llywodraethu agored a gweithredol a sefydlwyd. Roedd y model wedi ymrwymo'n llawn i ddenu sgiliau ac arbenigedd y farchnad, gan ddefnyddio pensaernïaeth y pŵl a'r gallu i reoli buddsoddiad wrth arfer ei statws fel buddsoddwr ar raddfa fawr i ddarparu arbedion ffioedd a buddion gweithredol i'r cronfeydd sylfaenol.
- 1.9 Mae strwythur llywodraethu corfforaethol PPC ffurfiol ar waith, sy'n cael ei gydnabod yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA) rhwng pob un o'r 8 Awdurdod Gweinyddu. Mae pob AG yn cael ei gynrychioli ar Gyd-bwyllgor Llywodraethu (CBLI) PPC sy'n gwneud penderfyniadau, a hynny gan Gadeirydd Pwyllgor y Gronfa Pensiwn berthnasol. Mae Gweithgor Swyddogion (GS) sy'n cynnwys Swyddogion S151 ac Ymarferwyr Cronfa Pensiwn yn cefnogi ac yn cynghori'r Cyd-bwyllgor.
- 1.10 Ers hynny, gwelwyd bod y PPC yn gweithredu'n effeithlon a hynny gan y cynnydd ystyrlon a phragmatig y mae'r pŵl wedi'i gyflawni yn y blynyddoedd dilynol, o ran cyflymder a graddfa cronni'r asedau, datblygu dewisiadau cronfa y mae cronfeydd sylfaenol yn dymuno buddsoddi ynddynt a sicrhau bod cymaint â phosibl o gronfeydd y partneriaid yn chwarae rhan. Mae PPC hefyd wedi datblygu llun o fframweithiau a pholisïau buddsoddi i allu cyflawni'r strategaethau hyn, ac yn fwy diweddar, wedi ffurfio ei gynigion cronfa marchnad breifat yn ofalus i sicrhau mewnfuddsoddi effaith a lleol fwyaf i Gymru. Dyma'r llwyddiannau sylweddol hyd yma:
  - Dros 74% o asedau wedi'u pŵlio
  - Llywodraethu cadarn a chydweithio cyson rhwng yr Awdurdodau Gweinyddu yng Nghymru
  - Cyflawni arbedion ffioedd o (isafswm) £40m
  - Cerbydau cyd-fuddsoddi pwrpasol ar gyfer buddsoddwyr PPC
  - Sefydlu ystod o 10 is-gronfa rhestredig aml-reolwr gydag amryw o

fuddsoddwyr

- Ffurio cronfeydd marchnad breifat mewn Dyledion Preifat, Is adeiladwaith, Ecwiti Preifat ac Eiddo Tirol
- Gwasanaethau Rheoli a Gweithredu Portffolio Dirprwyedig ar draws asedau rhestredig a marchnadoedd preifat
- Polisi Buddsoddi Cyfrifol, Polisi Stiwardiaeth ac Ymgysylltu, Fframwaith Rheoli Risg
- Sefydlu grŵp ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Defnyddio cyfalaf yn effeithiol yn lleol/cenedlaethol (Cymru) drwy fuddsoddi mewn isadeladwaith adnewyddadwy, tai fforddiadwy, storio batris a chyfalaf naturiol (coedwigaeth).

## 2 Crynodeb Gweithredol

- 2.1 Lansiodd y Llywodraeth Ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol' ei Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ar 14 Tachwedd 2024:

[Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol \(Cymru a Lloegr\): Fit for the future - GOV.UK](#)

yn amlinellu ystod o gynigion i gryfhau'r gwaith o reoli buddsoddiadau CPLIL mewn tri maes allweddol:

1. Diwygio cronfeydd asedau'r CPLIL
2. Hybu buddsoddiad y CPLIL mewn ardaloedd lleol a rhanbarthau yn y DU,
3. Cryfhau llywodraethiant Awdurdodau Gweinyddu y CPLIL a chronfeydd y CPLIL.

Gwahoddwyd yr holl randdeiliaid i ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 16 Ionawr 2025. Gofynnwyd hefyd i'r wyth pŵl CPLIL a sefydlwyd yn genedlaethol (7 yn Lloegr ac 1 yng Nghymru) gyflwyno Achos Busnes yn amlinellu sut gallant gwrdd â meini prawf angenrheidiol y Llywodraeth o ran meysydd 1 a 2 uchod, a'u cyflawni yn unol â'r dyddiad cau, sef 31 Mawrth 2026. Y dyddiad cau i gyflwyno'r achosion busnes hyn oedd 28 Chwefror 2025. Nodwyd gan weision sifil y Llywodraeth y bydd rhaid cynnwys deddfwriaeth galluogi CPLIL sy'n amlinellu'r gofynion cyfreithiol o ganlyniad i'r ymarfer ymgynghori o fewn y Bil Pensiynau yn ddiweddarach eleni (gellir ychwanegu ato ymhellach gyda rheoliadau ac arweiniad statudol).

- 2.2 Dechreuodd PPC yr hyn sydd bellach yn cael ei alw yn Brosiect yr Wyddfa i lunio Achos Busnes (Atodiad 3, Atodiad 4 ac Adran 4 o'r adroddiad hwn) er mwyn ymdrin â'r cwestiwn sylfaenol a godwyd gan yr ymgynghoriad, sef, naill ai:

- i) adeiladu ei gwmni rheoli buddsoddi ei hun a chadw ei Bŵl Rheoli Buddsoddi annibynnol ei hun?

neu

- ii) uno â phŵl CPLIL arall yn Lloegr?

- 2.3 Daeth PPC i'r casgliad mai'r hyn fyddai orau i'r holl randdeiliaid uniongyrchol ac ehangach yng Nghymru oedd bod PPC yn mynd

ymlaen i adeiladu ei gwmni ei hun a chadw ei annibyniaeth fel pŵl gyda phob un o'r 8 CPLIL yng Nghymru fel yr unig randdeiliaid a chleientiaid. Mae ffurfio cwmni rheoli buddsoddi 'IM Co' PPC yn rhoi cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu Cwmni Buddsoddi CPLIL annibynnol er budd holl randdeiliaid y 22 awdurdod lleol sylfaenol yng Nghymru, 382 o gyflogwyr a 412,000 o aelodau. Nid yn unig y gall PPC barhau i fuddsoddi a diogelu pensiynau CPLIL ei aelodau, bydd cyfle hefyd i barhau â'i rôl yn buddsoddi'n lleol ledled Cymru a gweddill y DU, gan weithio gyda Chynghorau, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, Banc Datblygu Cymru, Banc Busnes Prydain a Llywodraeth Cymru. Bydd hyn oll yn hyrwyddo twf economaidd, darparu cyflogaeth, diogelu ynni glân a gwella seilwaith ehangach y wlad, er budd pobl Cymru.

- 2.4
1. Cyflwynodd Cronfa Bensiwn Gwynedd a PPC eu hymatebion ffurfiol i ymgynghoriad CPLIL 'Addas i'r Dyfodol' Llywodraeth San Steffan ar 16 Ionawr 2025. Mae rhain i'w gweld yn Atodiad 1 ac Atodiad 2.
  2. Cyflwynodd PPC ei achos busnes angenrheidiol ar 28 Chwefror 2025 (Atodiad 3 ac mae trosolwg ohono yn Adran 4 yr adroddiad hwn). Mae Swyddogion PPC hefyd wedi cynhyrchu dogfen Cwestiynau Cyffredin 'Addas i'r Dyfodol' yn Atodiad 4.
  3. Cymeradwyodd Gyd-bwyllgor Llywodraethu PPC achos busnes PPC yn ôl-weithredol ar 12 Mawrth 2025.
  4. Mae Cyfansoddiad y Cyngor hwn yn dirprwyo pob mater sy'n ymwneud â rheolaeth weithredol a strategol Cronfa Bensiwn Gwynedd CPLIL i'w Bwyllgor Cronfa Bensiwn ei hun. Mae Pwyllgor Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi nodi bod achos busnes PPC wedi'i gyflwyno.

2.5 **Cymeradwyaeth y Llywodraeth**

Mae PPC wedi derbyn y newyddion calonogol bod y Llywodraeth wedi cymeradwyo achos busnes PPC, mewn llythyr (Atodiad 6) gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a'r Gweinidog dros Bensiynau ar 9 Ebrill 2025. Mae swyddogion y Llywodraeth wedi gofyn i'r PPC barhau i weithredu ei gynlluniau a pharhau i hysbysu'r llywodraeth o'r cynnydd. Dylid nodi nad oedd 2 bŵl yn Lloegr, Brunel ac ACCESS, yn llwyddiannus wrth gyflwyno eu hachos busnes ac mae'r AG sylfaenol bellach wedi'u gwahodd i geisio ymuno â phŵl arall.

- 2.6
- Er mwyn bodloni dyddiadau cau heriol y Llywodraeth, mae angen cyflwyno cais yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i sefydlu IM Co PPC yn fuan. Mae gofynion yr FCA yn nodi bod yr endid sy'n gwneud cais am awdurdod (h.y. IMCo. PPC) yn gorfod cael ei ymgorffori cyn cyflwyno'r cais FCA a bod yn rhaid i ddeiliaid rhai swyddi Uwch Reoli (SMF) a nodir, gan gynnwys y Prif Swyddog Gweithredol, gael eu hadnabod a'u cynnwys yn y cais. (Adran 5 yr adroddiad hwn).
- 2.7
- Mae Cynllun Busnes a Chyllideb Flynyddol PPC am 2025/26 wedi'u diwygio (Atodiad 5) i adlewyrchu'r gwaith galluogi a rhagbaratoi ychwanegol sy'n angenrheidiol gan Brosiect yr Wyddfa, e.e., costau ymgynghori prosiect, costau dethol a recriwtio, costau cais FCA, costau

sefydlu IMCo. (Adran 6 yr adroddiad hwn). Cymeradwywyd hwn gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar 4 Mehefin 2025 a gan Bwyllgor Pensiynau Gwynedd ar 12 Mehefin 2025.

- 2.8 Dylid cyflwyno adroddiad pellach, sy'n nodi cynlluniau, cytundebau a dogfennaeth llywodraethu manwl (wedi'i amlinellu yn Adran 7) a chyllideb ar gyfer cyflawni'r cynigion sy'n cael eu cynnwys o fewn Achos Busnes PPC i'r Pwyllgor Cronfa Bensiwn am gymeradwyaeth maes o law. Bydd hynny yn dilyn penderfyniad y Llywodraeth ar ôl yr ymarferiad ymgynghori a'r ddeddfwriaeth alluogi ddilynol yn y Bil Pensiynau nesaf a fydd yn cael ei ddarllen yn Nhŷ'r Cyffredin cyn gwyliau'r Haf.

### 3 Ymgynghoriad CPLIL 'Addas i'r Dyfodol' y Llywodraeth

- 3.1 Lansiodd y Llywodraeth Ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol' ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ar 14 Tachwedd 2024:

[Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol \(Cymru a Lloegr\): Fit for the future - GOV.UK](#)

yn amlinellu ystod o gynigion i gryfhau'r rheolaeth ar fuddsoddiadau CPLIL mewn tri maes:

**1.Diwygio pŵl asedau'r CPLIL** drwy orfodi safonau gofynnol penodol sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer cael model cyson a'r model gorau, yn unol ag arferion gorau rhyngwladol. Dyma'r safonau gofynnol a gynigiwyd:

- Byddai'n ofynnol i Awdurdodau Gweinyddu (AG) ddirprwyo gweithrediad y strategaeth fuddsoddi yn llawn i'r pŵl, a chymryd eu prif gyngor ar eu strategaeth fuddsoddi o'r pŵl.
- Byddai'n ofynnol i unrhyw bŵl fod yn gwmni rheoli buddsoddiadau sydd wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), gyda'r arbenigedd a'r capasiti i weithredu strategaethau buddsoddi.
- Byddai'n ofynnol i awdurdodau gweinyddol drosglwyddo asedau gweddilliol i reolwyr y pŵl erbyn 31 Mawrth 2026.

**2.Hybu buddsoddiad y CPLIL yn ei ardaloedd ac yn y ranbarthau yn y DU,** drwy ofyn i awdurdodau gweinyddu:

- nodi sut y byddant yn buddsoddi'n lleol yn eu strategaeth fuddsoddi, gan gynnwys ystod targed ar gyfer y dyraniad ac ystyried blaenoriaethau a chynlluniau twf lleol,
- gweithio gydag awdurdodau lleol, Awdurdodau Cyfunol, Awdurdodau Cyfunol Maerol, Awdurdodau Sir Cyfunol ac Awdurdod Llundain Fwyaf er mwyn adnabod cyfleoedd i fuddsoddi'n lleol. Yng Nghymru, byddai AG yn gweithio gyda Chyd-bwyllgorau Corfforaethol perthnasol ar eu blaenoriaethau a'u cynlluniau datblygu economaidd arfaethedig, a gydag

awdurdodau lleol yn fwy cyffredinol er mwyn adnabod cyfleoedd i fuddsoddi.

- gosod eu buddsoddiad lleol a'i effaith yn eu hadroddiadau blynyddol.
- Byddai'n ofynnol i bob pŵl gynnal proses diwydrwydd dyladwy addas ar fuddsoddiadau posib a gwneud y penderfyniad terfynol i fuddsoddi ai peidio.

**3.Cryfhau llywodraethu Awdurdodau Gweinyddu y CPLIL a phŵl CPLIL yn y ffyrdd canlynol, gan adeiladu ar argymhellion Bwrdd Cynghori'r Cynllun (SAB) yn ei Adolygiad Llywodraethu Da 2021:**

- byddai angen i aelodau'r pwyllgor gael yr wybodaeth a'r sgiliau priodol.
- byddai angen i'r AG gyhoeddi strategaeth hyfforddi a llywodraethu (gan gynnwys polisi gwrthdaro buddiannau) a strategaeth weinyddu, er mwyn penodi uwch swyddog CPLIL, a chynnal adolygiadau annibynnol bob dwy flynedd er mwyn ystyried a oes modd i'r AG gyflawni eu cyfrifoldebau.
- bydd angen i fyddau pŵl gynnwys cynrychiolwyr o'u rhanddeiliaid a gwella tryloywder.

Gwahoddwyd i'r holl randdeiliaid CPLIL ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 16 Ionawr 2025, a gofynnwyd hefyd i bob un o'r 8 pŵl CPLIL,(sydd wedi eu rhestru yn 1.4 uchod) gyflwyno Achos Busnes erbyn 1 Mawrth 2025 yn amlinellu sut gellir cwrdd â meini prawf gofynnol y Llywodraeth o ran maes 1 a 2 y meini prawf uchod o fewn y terfyn amser gofynnol, sef 31 Mawrth 2026.

3.2 Defnyddiodd PPC grŵp llywio prosiect i lunio ei gynigion, a chafodd y prosiect ei enwi'n 'Prosiect yr Wyddfa'. Roedd yr amserlen i gyflawni darn o waith manwl a chynhwysfawr o'r fath yn dynn. Ymdrechodd Grŵp Llywio'r Prosiect i roi gwybod i'r holl randdeiliaid am unrhyw ddatblygiadau, fel mae'r amserlen wedi'i ganiatáu, gyda sylwadau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r grŵp ymgysylltu rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn yr achos busnes terfynol.

1. Cyflwynodd Cronfa Bensiwn Gwynedd ei ymateb ei hun a chefnogodd Ymateb y PPC i Ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol' CPLIL ar 16 Ionawr 2025. Yn dilyn hyn, cafodd y cyflwyniadau hyn eu cymeradwyo ar 27 Ionawr 2025.
2. Cyflwynodd PPC ei achos busnes ar 28 Chwefror 2025 (Atodiad 1 ac mae wedi'i grynhoi yn Adran 4 yr adroddiad hwn).
3. Cymeradwyodd Gyd-bwyllgor Llywodraethu PPC gyflwyniad achos busnes PPC ar 12 Mawrth 2025.
4. Mae Cyfansoddiad y Cyngor hwn yn dirprwyo pob mater sy'n ymwneud â rheolaeth weithredol a strategol Cronfa Bensiwn Gwynedd CPLIL i'w Bwyllgor Cronfa Bensiwn ei hun.

## Achos Busnes 'Addas i'r Dyfodol' PPC

- 4.1 Mae'n amlwg nad yw PPC, yn ei ffurf bresennol, yn cwrdd â'r meini prawf gofynnol a amlinellwyd, gan nad yw'n Gwmni Rheoli Buddsoddi (IMCo.) a reoleiddir gan yr FCA. Felly, mae prif gynnwys achos busnes PPC yn canolbwyntio ar sut gellir cyrraedd y meini prawf gofynnol hynny drwy ateb cwestiwn sylfaenol a godwyd gan yr ymgynghoriad, sef, a yw PPC naill ai'n:

i) adeiladu ei gwmni buddsoddi PPC ei hun a chadw ei bŵl annibynnol ei hun?

neu

ii) uno â phŵl CPLIL arall yn Lloegr?

Mae PPC yn cytuno â chasgliadau'r Llywodraeth ym mharagraff 62 yr ymgynghoriad:

*"62..... Yn benodol, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithredu o fewn cenedl ddatganoledig ac mae ganddi bartneriaethau ar wahân gyda Chyd-bwyllgorau Corfforaethol Cymru. Gallai felly wneud synnwyr i gronfeydd CPLIL Cymru barhau mewn pŵl ar wahân."*

- 4.2 Wedi cynnal ystyriaeth drylwyr o'r holl opsiynau, mae'n amlwg NA fyddai uno neu ddod yn gleient i bŵl arall yn "ddull mwy cost-efeithiol neu well o gyflawni cydymffurfiaeth". Felly, mae'r achos busnes yn gosod sut fydd PPC yn adeiladu ei gwmni buddsoddi ei hun gyda'r wyth AG CPLIL yng Nghymru yn rhanddeiliaid ac yn gleientiaid i'r cwmni newydd. (Mae'r achos busnes llawn a Chwestiynau Cyffredin wedi'u atodi yn Atodiad 3 ac Atodiad 4).
- 4.3 Mae'r cyflwyniad yn nodi achos busnes cadarn i'r PPC gadw pŵl buddsoddi annibynnol i Gymru a bwrw ymlaen i adeiladu gofynion newydd arfaethedig ychwanegol y Llywodraeth ar gyfer model gweithredu'r pŵl. Mae hyn yn adeiladu ar lwyddiant PPC hyd yma ac yn cyflawni ar draws yr ystod o amcanion y mae'r Llywodraeth wedi'u nodi yn ei huchelgeisiau ar gyfer cynnydd y CPLIL ac yn benodol, y CPLIL yng Nghymru. Mae'r cyflwyniad yn dangos gallu PPC i gyflawni ar draws pob agwedd fel pŵl buddsoddi annibynnol.
- 4.4 Mae PPC yn cynnig sefydlu cwmni rheoli buddsoddiadau annibynnol ("IM Co"), wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ("FCA"), yn unol â meini prawf y Llywodraeth a symud holl asedau PPC dan reolaeth IM Co, yn unol â'r amserlenni. Mae'r cyflwyniad hwn hefyd yn dangos y gwerthusiad gwrthrychol o'n cynlluniau yn erbyn meini prawf y Llywodraeth (Manteision Graddfa, Gwydnwch, Gwerth am Arian, Hyfywedd yn erbyn llinell amser) a sut mae hyn yn cymharu orau ag opsiynau eraill. Mae'r penderfyniad i adeiladu gwmni buddsoddi PPC yn cynnig cyfle unigryw i sefydlu canolfan ragoriaeth o bwys mewn buddsoddiad CPLIL yng Nghymru gan greu cyfleoedd gyrfu gwerthfawr a gwella'r sector gwasanaethau ariannol yng Nghymru.
- 4.5 Mae'r model gweithredu arfaethedig yn adeiladu ar y llwyddiant, y profiad cadarnhaol a'r perthnasoedd strategol proffesiynol a sefydlwyd

ac a ddatblygwyd yn nhaith PPC hyd yn hyn. Mae'r dull hwn hefyd yn cael ei fabwysiadu i gyflymu'r 'pontio' i'r model gweithredu newydd erbyn mis Mawrth 2026. Bydd yn parhau i drosoli'r manteision graddfa sydd gan ein partneriaid yn y farchnad, ac yn datblygu'r gallu i adnabod a sicrhau diwydrwydd dyladwy o safbwynt buddsoddiadau lleol, darparu gwasanaethau ymgynghorol ar fuddsoddi a rheoli asedau gweddilliol.

- 4.6 Mewn amser, mae cwmni buddsoddi PPC yn bwriadu darparu manteision ychwanegol i fuddsoddwyr Awdurdod Gweinyddol trwy ymestyn yr ystod o alluoedd rheoli buddsoddiad mewnol.
- 4.7 Mae'r perthnasoedd strategol a sefydlwyd gyda'n partneriaid cyflenwi gwasanaeth presennol yn rhoi modd i esblygu'n rhesymegol y model PPC presennol i fod yn gwmni annibynnol a reoliddir gan yr FCA. Mae'r model yn manteisio ar brofiad ac adnoddau y partneriaid hyn sydd eisoes wedi'u rheoleiddio gan yr FCA, a fydd yn helpu'n fawr gyda'r broses o ffurfio IM Co. a reoleiddir gan yr FCA a bodloni meini prawf trylwyr y cais. Bydd yn gymorth hefyd o ran cynghori a chynorthwyo ar benodi'r uwch bersonél rheoli allweddol sy'n ofynnol gan yr FCA ar ôl awdurdodi a darparu'r adnoddau i ddarparu gwasanaethau cynghori buddsoddi IM Co. yn y lle cyntaf.
- 4.8 Wrth werthuso opsiynau pŵlio eraill, roedd osgoi'r angen i drosglwyddo asedau PPC i bŵl CPLIL arall yn ffactor mawr o ystyried y costau trosglwyddo sylweddol, sydd wedi'u modelu'n geidwadol ar oddeutu £45m ar asedau rhestredig a reolir yn weithredol yn unig. (Ffynhonnell: Russell Investment Management). Byddai costau trosglwyddo ychwanegol eraill ar asedau rhestredig goddefol a marchnad breifat.
- 4.9 Wrth uno, byddai llais PPC yn cael ei wanhau mewn llywodraethiant fel cyfranddaliwr neu gleient o'i gymharu â'r dewis arall sy'n cael ei ffafrio. Gallai hyn gyfyngu ar ein gallu i gyfeirio buddsoddiad lleol i gymunedau yng Nghymru, er enghraifft. Byddai uno hefyd yn galw am gytundeb cronfa bartner, awdurdodi gan yr FCA, trosglwyddo asedau a byddai hynny'n cymryd sawl blwyddyn, ac yn dargyfeirio adnoddau oddi wrth y gwaith cyflawni heb fod unrhyw fudd amlwg o wneud hynny.
- 4.10 Mae sefydlu IM Co PPC yn sicrhau bod cof corfforaethol Awdurdodau Gweinyddu yng Nghymru yn cael ei gadw, er mwyn parhau i reoli'r portffolio o asedau etifeddiaeth yn effeithlon; byddai hynny'n cael ei golli pe bai gorfodaeth i drosglwyddo i bŵl arall. Mae'r cyflwyniad hwn yn dangos bod opsiynau pŵl eraill wedi'u diystyru am yr holl resymau a nodwyd yma. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar draws cronfeydd, gan gynnwys cyfleoedd i gyd-fuddsoddi sy'n cefnogi twf y DU.
- 4.11 Mae ffurfio IM Co. PPC yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu Cwmni Buddsoddi CPLIL annibynnol er budd holl randdeiliaid y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, 382 o gyflogwyr a 412,000 o aelodau. Gall PPC barhau i fuddsoddi ar gyfer ei aelodau a diogelu pensiynau CPLIL, a chael y cyfle hefyd i barhau â'i rôl yn buddsoddi'n lleol ledled Cymru a gweddill y DU, gan weithio gyda Chynghorau, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, Banc Datblygu Cymru, Banc Busnes Prydain a

Llywodraeth Cymru, gan hyrwyddo twf economaidd, darparu cyflogaeth, diogelu ynni glân a gwella seilwaith ehangach y wlad, er budd pobl Cymru.

#### 4.12 **Cymeradwyaeth Llywodraeth y DU**

Ar 9 Ebrill 2025, derbyniodd PPC lythyr (Atodiad 6) gan y Llywodraeth ar ran y Gweinidog Llywodraeth Leol a'r Gweinidog dros Bensiynau yn Llywodraeth San Steffan yn cymeradwyo'r achos busnes PPC ac yn annog cynnydd i gwrdd â'r dyddiad cau o fis Mawrth 2026. Dylid nodi nad oedd 2 bŵl yn Lloegr, Brunel ac ACCESS, yn llwyddiannus yn eu cyflwyniadau achos busnes ac mae'r AG bellach wedi'u gwahodd i ymuno â phŵl arall.

### 5 **Cwmni Rheoli Buddsoddi PPC (PPC IMCo)**

- 5.1 Wrth wraidd cyflwyno achos busnes PPC i'r llywodraeth, y bwriad yw adeiladu cwmni rheoli buddsoddi. ym mherchnogaeth lawn yr 8 AG yng Nghymru sydd yn rhanddeiliaid ac yn gleientiaid i'r cwmni newydd. Bydd hynny er mwyn parhau i gyflawni gwasanaethau rheoli buddsoddi i'r 8 AG tra'n datblygu'r gofynion gwasanaeth hanfodol ychwanegol gyda chymorth partneriaeth strategol sydd eisoes yn bodoli dros amser.
- 5.2 Er mwyn cadw at amserlenni'r Llywodraeth, mae'r cynllun gweithredu (yn adran 6 yr achos busnes) yn nodi bod cyflwyno cais yr IMCo i'r FCA yn dasg allweddol ar y llwybr critigol tuag at lwyddiant.
- 5.3 Mae cais yr FCA yn ei gwneud yn ofynnol i'r endid sy'n gwneud cais am awdurdod (h.y. 'IM Co' PPC) gael ei ymgorffori cyn cyflwyno'r cais, a bod yn rhaid i ddeiliaid rhai swyddi Uwch Swyddogaeth Rheoli, gan gynnwys y Prif Swyddog Gweithredol, gael eu henwi'n benodol o fewn y cais ffurfiol i'r FCA er mwyn i'r FCA wirio ac asesu eu bod yn addas i'r rôl.
- 5.4 Felly, er mwyn cadw at y cynllun gweithredu, dylid ffurfio endid corfforaethol sy'n cael ei berchnogi'n llawn gan Awdurdodau Gweinyddu (AG) y PPC, bwrw ymlaen â'r broses recriwtio a dethol sy'n ofynnol i lenwi'r rolau SMF yn ei blaen fel rhan hanfodol o'r broses cais FCA, a chyflawni camau eraill o'r fath sy'n hanfodol i baratoi a chyflwyno cais i'r FCA.

### 6 **Cynllun Busnes Blynyddol PPC 2025/26**

- 6.1 Yn unol â'r arfer orau, mae PPC ar hyn o bryd yn cynhyrchu Cynllun Busnes Blynyddol a chyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod, a chymeradwywyd yn ffurfiol gwneud yr un fath ar gyfer 2025/26 yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar 12 Mawrth 2025. Mae'r holl wariant o ran rhedeg a rheoli'r CPLIL yn dod o gyfrifon cronfa bensiwn pob awdurdod gweinyddu, nid o Gronfa Gyffredinol y Cyngor.

- 6.2 Mae Achos Busnes a chyllideb PPC ar gyfer 2025/26 wedi'u hadolygu i ymgorffori'r gwaith galluogi a rhagbaratoi ar gyfer Prosiect Wyddfa. Mae Cynllun Busnes Blynyddol a chyllideb PPC ar gyfer 2025/26, gan gynnwys gwaith galluogi a rhagbaratoi Prosiect Wyddfa wedi'u hatodi yn Atodiad 5, i'w cymeradwyo. Cymeradwyodd Cyd-bwyllgor Llywodraethu PPC y cynllun busnes diwygiedig hwn ar 4 Mehefin 2025 ac mae Pwyllgor Pensiynau Gwynedd wedi ei gymeradwyo ar 12 Mehefin 2025.

## **7 Dogfennaeth a Chymeradwyaeth "Mynd yn Fyw"**

- 7.1 Yn ychwanegol i'r gwaith rhagbaratoi sy'n ofynnol i geisio am awdurdod gan yr FCA, cydnabyddir y bydd pob un o'r eitemau allweddol canlynol (nid yw'n rhestr gyflawn) angen cymeradwyaeth y pwyllgor pensiynau ar gyfer bob AG PPC cyn y dyddiad "Mynd yn Fyw" arfaethedig ym mis Mawrth 2026:

(i) cymeradwyo erthyglau cwmni terfynol a'r cytundeb rhanddeiliaid ar gyfer IMCo.;

(ii) cymeradwyo terfynu'r cytundeb gweithredwr gyda chytundeb newydd i'w roi mewn lle rhwng y gweithredwr presennol ac IMCo.;

(iii) cymeradwyo cytundeb newydd rhwng darparwyr eraill ac IMCo. (i'r graddau sy'n ofynnol ac yn amodol ar benderfyniadau strwythuro pellach);

(iv) cymeradwyo'r cytundeb rhyng- awdurdod newydd (i sicrhau cysondeb gyda chytundeb cyfranddalwyr IMCo. / trefniadau bwrdd cyfranddalwyr newydd) (yn amodol ar benderfyniadau terfynol ar strwythurau llywodraethu);

(v) cytundebau rheoli buddsoddi rhwng IMCo. a'r awdurdodau cyfansoddol (o ran asedau etifeddiaeth gweddilliol);

(vi) cytuno ar gyfalaf rheoleiddio IMCo. a'r chwistrelliad perthnasol o'r cyfalaf hwnnw i'r IMCo;

(vii) trefniadau ategol o ran yr IMCo. a'r broses awdurdodi gan yr FCA;

(viii) cymeradwyo trefniadau cytundebol rhwng IMCo ac awdurdodau gweinyddu y PPC o ran gwasanaethau gweithredu strategaeth a chynghor ar fuddsoddi (yn amodol ar drafodaethau strwythuro pellach).

## **8 Goblygiadau Cyfreithiol**

- 8.1 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 sy'n gosod y fframwaith deddfwriaethol cyfredol ar gyfer buddsoddiadau'r gronfa pensiwn a wneir gan Awdurdodau Gweinyddu. Mae'r gyfraith sy'n llywodraethu pensiynau yn faes cymhleth ac arbenigol. Mae canllawiau'r Llywodraeth yn nodi y

caniateir cronni asedau CPLIL dan y gyfraith bresennol.

- 8.2 Mae Cylch Gorchwyl a Chynllun Dirprwyo'r Cronfa Bensiwn yn gosod cyfrifoldeb y Pwyllgor ar gyfer llywodraethu strategol gweithredol y Gronfa Bensiwn.

## **9 Goblygiadau Ariannol**

- 9.1 Mae'r goblygiadau ariannol a amlinellwyd yn uniongyrchol gan yr adroddiad hwn wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes Blynnyddol a Chyllideb y PPC ar gyfer 2025/26, sydd wedi'u hatodi (Atodiad 4) a byddant yn cael eu had-dalu'n llawn fel 1/8<sup>fed</sup> rhan o'r gyfran i gyllideb Cronfa Bensiwn Gwynedd ac **NID** yw'n effeithio ar gronfeydd Cyngor Gwynedd.

## **10 Asesiad Risgiau a Materion**

- 10.1 Mae'r cynigion a amlinellwyd yn ganlyniad uniongyrchol i gyfarwyddiadau Llywodraeth San Steffan ac mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau ei chefnogaeth ar gyfer y cynigion PPC a amlinellwyd. Fel y nodwyd yn Adran 4.12 yr adroddiad hwn, nid yw 2 bŵl (yn Lloegr) wedi bod yn llwyddiannus wrth berswadio'r Llywodraeth o'u gallu i gyflawni'r un peth. Felly, mae'r achos busnes cryf a'r cynllun ac amserlen manwl a gymeradwywyd gan Llywodraeth San Steffan yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at liniau'r risgiau hynny sy'n bodoli.
- 10.2 Mae'r model gweithredu PPC a amlinellwyd yn yr achos busnes yn esblygu ar y model cyfredol a fabwysiadwyd ac yn ceisio gweithredu'r cofrestriad FCA ychwanegol sy'n ofynnol, darparu gwasanaeth a galluoedd wrth symud ymlaen, felly mae'r risgiau gweithredol o symud o PPC i PPC IMCo. wedi'u lliniaru yn sylweddol heb fod angen trosglwyddo asedau.

## **11 Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

- 11.1 Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i Ddeddf Cydraddoldeb (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Mesur y Gymraeg (Cymru).
- 11.2 Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i wneud, ac nid oes unrhyw oblygiadau andwyol wedi'u nodi.

## **Barn y Swyddogion Statudol**

### **Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yma yn cynrychioli cam cychwynnol mewn sefydlu trefniadau buddsoddi newydd ar gyfer Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'n gadarnhaol fod y Cynllun Busnes wedi ei gefnogi sydd yn rhoi sicrwydd o'r cyfeiriad. Gallaf gadarnhau fod yr adroddiad a'r cynnwys yn cael ei arwain gan gyfreithwyr arbenigol sydd yn rhoi sicrwydd pellach ynglŷn a'r cyfeiriad. Gan fod y mater yma ynglŷn a'r Gronfa Bensiwn mater i'r Cyngor Llawn a'r Pwyllgor Pensiynau yw ymdrin a'r mater. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir a'r dirprwy sydd yn cael ei gynnig.

### **Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

## **ATODIADAU**

**Atodiad 1** Ymateb Cronfa Unigol i'r Ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol'

**Atodiad 2** Ymateb PPC i'r Ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol'

**Atodiad 3** Achos Busnes PPC ar gyfer 'Addas i'r Dyfodol'

**Atodiad 4** Cwestiynau Cyffredin Achos Busnes 'Addas i'r Dyfodol' PPC

**Atodiad 5** Cynllun Busnes Blynyddol PPC 2025/26

**Atodiad 6** Llythyr Gweinidogol 9 Ebrill 2025